**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - MATERION YR HINSAWDD, GWASANAETHAU RHENG FLAEN A FFYNIANT**

Cofnodion o gyfarfod Hybrid y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant a gynhaliwyd Dydd Mercher, 18 Hydref 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd C Middle (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G L Warren
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd W Hughes

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd A Rogers
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd V Dunn
Y Cyngorydd G Jones
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd Binning

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr Simon Gale Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mrs S Handy, Swyddog Ymchwil a Chraffu I Aelodau

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol yn bresennol**

Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon

Y Cynghorydd E L Dunning
Y Cynghorydd P Evans

Y Cynghorydd G O Jones

**10 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau a Swyddogion i gyfarfod y Pwyllgor a chroesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Hamdden a'r Amgylchedd

**11 Ymchwil a Chraffu**

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y cyfleusterau ymchwil sydd ar gael i Aelodau yn Uned Busnes y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i Aelodau os oes gyda nhw unrhyw ymholiadau penodol, mae modd iddyn nhw e-bostio Craffu@rctcbc.gov.uk.

**12 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E Dunning, G Jones a P Evans

**13 Datgan Buddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**14 Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 27 Mehefin 2023 eu cadarnhau'n rhai cywir.

**15 Ymgynghoriadau**

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y dolenni ymgynghori sydd ar gael trwy wefan 'Craffu RhCT'. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn perthynas ag ymgynghoriadau priodol i'w trafod gan y Pwyllgor bob mis a'i diweddaru bob pythefnos.

**16 Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pwyllgor a rhoddodd ddiolch iddi am ddod. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i Aelodau a rhoddodd wybod iddyn nhw fod gyda nhw gyfle i graffu ar unrhyw faterion gyda deiliad y portffolio sy'n gyfrifol am faterion yr hinsawdd a gwasanaethau corfforaethol a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd Aelod am y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i ddelio â glaswellt artiffisial sy'n ddrwg i'r amgylchedd ac o ran atal llifogydd yn y Fwrdeistref Sirol. Gofynnodd yr Aelod faint o'n tirwedd ni bellach

yn laswellt artiffisial o'i gymharu â glaswellt naturiol. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod nad yw'r Cyngor yn gwybod pa ardaloedd sydd â glaswellt artiffisial ar hyn o bryd, gan nodi y gallai'r mater yma fod yn adroddiad i graffu arno yn y dyfodol. Nododd yr Aelod fod angen ymgyrch i roi gwybod i bobl am y drwg y mae glaswellt plastig yn ei wneud. Nododd y Cadeirydd y mater yma'n eitem i graffu arni yn y dyfodol a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor gysylltu â gwerthwyr i gael gwybod faint maen nhw wedi'i werthu.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd Aelod am y gymhareb o ran mannau gwefru cerbydau trydan yn y Fwrdeistref Sirol, hynny yw nifer y cerbydau trydan yn erbyn nifer y mannau gwefru. Gofynnodd a yw datblygiad posibl technoleg fodern a allai ddilyn cerbydau trydan yn y dyfodol wedi cael ei ystyried. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod Swyddogion wrthi'n casglu'r wybodaeth yma a chytunodd yr Aelod o'r Cabinet fod technoleg fodern yn bryder, gan roi sicrwydd i Aelodau fod pob posibilrwydd yn cael ei fonitro'n agos. Gofynnodd yr Aelod gwestiwn arall o ran pa mor agos y mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant cerbydau modur i fonitro'r camau y mae'n eu cymryd gyda datblygiad technoleg newydd. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'n trafod gyda Swyddogion a rhoi'r wybodaeth i'r Pwyllgor Craffu maes o law.

Gofynnodd Aelod arall am ragor o wybodaeth mewn perthynas â gwobrau ECO mewn ysgolion a sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cymryd rhan. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet, ynghyd â'r Cynghorydd R Lewis, eu bod wedi cwrdd â phlant ysgolion cynradd a'u bod nhw'n lansio'r wobr efydd eleni. Cawson nhw gymaint o adborth gan blant ysgolion cynradd â phosibl am eu syniadau. Roedd y plant yn awyddus iawn i dyfu a choginio eu llysiau eu hunain a choginio eu prydau ysgol eu hunain. Mae gan y Wobr Efydd dri chategori; Bioamrywiaeth lle bydd disgyblion yn astudio bioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol a bydd Hyrwyddwr Bioamrywiaeth yn cyflwyno mentrau newydd. Yn ail, Gwastraff ac Ailgylchu lle bydd her mewn perthynas â gwastraff bwyd ac yn drydydd, Allyriadau Carbon lle byddwn ni'n gofyn i ysgolion sicrhau gostyngiad o 10% yn eu hallbwn nwy a thrydan. Pwysleisiwyd bod modd i bob disgybl gymryd rhan yn y gwobrau.

Gofynnodd Aelod arall sut mae'r Cyngor yn annog y genhedlaeth iau i ofalu am y rhandiroedd yn y Fwrdeistref Sirol ar ran pobl hŷn. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod llawer i'w wneud a bod hyn yn cynnwys Cynghorwyr yn codi ymwybyddiaeth yn lleol. Mae'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a gwneud prosiectau awyr agored gyda phobl ifainc fel bod modd iddyn nhw ddefnyddio sgiliau bioamrywiaeth yn eu hamgylchedd eu hunain. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at nifer o brosiectau ymgysylltu parhaus gyda phobl ifainc a dyma'r hyn y mae angen i ni barhau i'w wneud yn y dyfodol. Pwysleisiodd y Cadeirydd y cafodd hyn ei godi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor y llynedd a gofynnodd fod hyn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Craffu fel eitem adroddiad ar gynnydd y cynllun posibl yma.

Gofynnodd Aelod arall am unrhyw ddata diweddar ar yr effaith y mae bysiau cyhoeddus a bysiau ysgol yn ei chael ar yr amgylchedd. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor wedi dechrau datblygu fflyd o gerbydau trydan a bod Swyddogion wrthi'n casglu data i ddangos ble mae'r allyriadau yn y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod casglu'r data yn allweddol fel bod modd i ni symud ymlaen mewn ffordd flaengar. Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad y bydd y data ar fysiau cyhoeddus a bysiau ysgol yn bennaf. Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet hynny a dywedodd fod ystod o opsiynau ar gael, megis bysiau cyhoeddus yn lle bysiau ysgol, efallai llai o fysiau ar y ffordd ac annog teuluoedd a phlant i gerdded i'r ysgol.

Gofynnodd Aelod arall a yw grwpiau defnyddwyr perthnasol wedi cael eu hystyried o ran cynlluniau megis y Strategaeth Swyddfeydd. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr holl grwpiau defnyddwyr wedi cael eu hystyried a bod staff yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith o dan y strategaeth. Bydd yn lleihau defnydd y Cyngor o drydan ac yn annog staff i ddefnyddio busnesau canol y dref. Mae'r holl ofynion mynediad i'r anabl wedi cael eu haddasu i anghenion grwpiau defnyddwyr gwahanol.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd Aelod sut mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau ei ôl troed carbon a beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod y cyhoedd yn effro i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig mewn perthynas â thorri glaswellt a gwaith cynnal a chadw ar briffyrdd. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr wybodaeth yn cael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor a bod Cynghorwyr lleol hefyd yn cael eu hannog i hyrwyddo'r wybodaeth yma yn eu wardiau lleol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at brosiect arall, sef 'Hinsawdd Ystyriol', sydd hefyd ar-lein. Mae hyn yn amlinellu targed y Cyngor o fod yn garbon niwtral erbyn 2030 a sero net erbyn 2040. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn darparu arweinyddiaeth gymunedol a ffyniant amgylcheddol cryf. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at nifer o brosiectau parhaus a phwysleisiodd un o'r rhain, sef gadael i'r glaswellt mewn ardaloedd penodol dyfu'n hirach er mwyn diogelu'r bywyd gwyllt a glöynnod byw. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet wrth yr Aelodau i edrych ar 'Hinsawdd Ystyriol' ar-lein, a dywedodd y byddai'n hapus i ddod yn ôl i'r cyfarfod craffu i ateb unrhyw gwestiynau pellach.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

1. Craffu ar yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol mewn perthynas â materion a gafodd eu trafod a'u cytuno gan y Cabinet, ac unrhyw benderfyniadau allweddol a gafodd eu gwneud, yn ystod y cyfnod rhwng 11 Mai a 18 Hydref 2023;

2.2 Derbyn adroddiadau pellach i graffu arnyn nhw mewn perthynas â'r canlynol:

- Ardaloedd gyda glaswellt artiffisial yn y Fwrdeistref Sirol a'i effaith ar yr amgylchedd.
- Pa gymorth (os o gwbl) ddylai'r Cyngor ei roi i bobl hŷn yn y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas â chynnal a chadw eu rhandiroedd neu'u gerddi a sut mae modd i'r Cyngor annog pobl ifainc i gymryd rhan;
- Derbyn rhagor o wybodaeth am dorri glaswellt yn y Fwrdeistref Sirol a pholisi'r Cyngor o ran gadael i rai ardaloedd penodol dyfu'n wyllt er mwyn gwella bioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

**17 Hinsawdd Ystyriol RhCT - Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd (2022–25) y Cyngor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2022-2025 y Cyngor. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth drosolwg gan nodi cynnydd y Cyngor o ran cyflawni Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor, 'Hinsawdd Ystyriol RhCT', fel y cytunwyd ym mis Mehefin 2022.

Cafwyd trafodaeth a chyfeiriodd y Cadeirydd at darged y Cyngor o fod yn garbon niwtral erbyn 2030 a sero net erbyn 2040 a gofynnwyd sut y byddai'r Cyngor yn monitro'r targedau yma a sut y byddai'n monitro'r sector preifat. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y targedau wrthi'n cael eu datblygu ac y bydd gan y pwyllgor craffu rôl allweddol i'w chwarae wrth fonitro'r cynnydd tuag at y targedau yma. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r pwyllgor craffu dderbyn yr wybodaeth ar ffurf siart. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod hyn yn faes cymhleth iawn ac y byddwn ni'n canolbwyntio ar roi cymorth i Aelodau trwy hyfforddiant ar bob agwedd ar faterion Newid yn yr Hinsawdd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- Mynegi barn ar unrhyw feysydd posibl i'w trafod ymhellach yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant;
- Nodi'r argymhelliad sy'n dod o Is-Bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, gweler paragraff 5.1, mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael, a'r effaith ar ôl troed carbon y Cyngor;
- Nodi'r potensial i ymgorffori ymateb y Cyngor i'r Newid yn yr Hinsawdd ymhellach ym musnes y Cyngor, a hynny'n rhan o ddatblygiad Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor;
- Ystyried a yw Aelodau'n dymuno craffu'n fwy manwl ar faterion yn yr adroddiad yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, gan gynnwys derbyn diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â chynnydd y Cyngor o ran cyrraedd ei dargedau Sero Net a derbyn hyfforddiant rheolaidd ar yr Newid yn yr Hinsawdd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu.

**18 Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a rhoddodd wybod i Aelodau ei bod yn eitem rhag-graffu lle byddai sylwadau Aelodau'n cael eu rhoi i'r Cabinet. Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio ei adroddiad i'r Aelodau yn fanwl, gan dynnu sylw Aelodau at yr atodiadau perthnasol.

Yn dilyn hyn, cafodd Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. Gofynnodd y Cadeirydd faint o arian Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) sydd gan Gynghorau Tref neu ydy'r arian mewn prosiectau seilwaith yn bennaf. Rhoddodd Pennaeth Materion Cynllunio wybod bod gan y Cynghorau Tref gyfrifoldeb uniongyrchol am arian CIL. Serch hynny, mae rhaid iddyn nhw ddangos ei fod yn cael ei wario mewn ffordd addas ac yn unol â rheoliadau CIL. Cafodd Aelodau wybod y dylai Clercod Cynghorau Cymuned gysylltu â Swyddog CIL y Cyngor i ofyn am gyngor o ran yr hyn sy'n addas. Gofynnodd y Cadeirydd sut mae hyn yn gweithio yng Nghwm Rhondda lle nad oes unrhyw Gynghorau Tref. Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wybod y cafodd y mater yma ei drafod yn gyntaf pan gafodd CIL ei mabwysiadu gan y Cabinet. Dywedodd y Cyfarwyddwr pe byddai datblygiad yng Nghwm Rhondda sy'n denu taliad CIL megis archfarchnad newydd, yna byddai'r Cyngor yn cadw'r CIL ac yn ymgysylltu â'r Aelodau Lleol o ran sut i wario'r arian CIL. Gofynnodd y Cadeirydd a oes amserlen o ran gwario'r arian ar seilwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Nododd Pennaeth Materion Cynllunio nad oes amserlen ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ond mae gan Gynghorau Cymuned amserlen benodol ond mae elfen o ddisgresiwn.

Cafwyd trafodaeth a chyfeiriodd Aelod arall at y rhestr rheoliad 123 ac eitem cyffordd â signalau'r A4119 Castell Mynach, a gofynnodd a fydd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo o hyd yn ôl y cynnig. Dywedodd Pennaeth Materion Cynllunio y bydd y gwaith yn parhau heb newidiadau.

Gofynnodd Aelod a yw cyllid CIL ar gael i ddatblygiadau newydd yn unig, a gofynnodd pe byddai rhywun yn dod i Aberdâr i gynnal gwaith adfer o ran concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn yr adeilad, fyddai modd defnyddio cyllid CIL. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant wybod na fyddai'r sefyllfa honno yn gymwys a bod rheoliadau CIL yn eu lle i sicrhau bod yr arian sy'n cael ei gasglu yn cael ei wario ar seilwaith i gefnogi twf yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar yr adroddiad yn rhan o'r adborth sy'n cael ei roi i'r Cabinet yn ei gyfarfod sydd i'w gynnal ar 23 Hydref 2023.

## 19 Y Strategaeth Coed a Gwrychoedd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ei adroddiad mewn perthynas â'r cynnydd o ran cyflawni Strategaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd RhCT.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd Aelod sut rydyn ni'n mesur cynnydd gwaith adfywio coed, er enghraifft faint sy'n tyfu ledled y Fwrdeistref Sirol. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd ymgysylltu â'r Aelod(au) Lleol ar gyfer pob ward. Gofynnodd yr Aelod sut mae hyn yn cyd-fynd â chynllunio, yn enwedig y Cynllun Datblygu Lleol. Mewn perthynas â mesur gwaith adfywio coed, dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn nodi sut rydyn ni'n dechrau mesur gwaith adfywio naturiol trwy ddadansoddi ein tir ein hunain, a bod gorchudd coed wedi tyfu'n sylweddol ar ein daliadau tir. Pwysleisiwyd bod Swyddogion yn hyderus bod y twf o ran gorchudd coed wedi digwydd o ganlyniad i adfywio naturiol. Yn nhermau tir dydy'r Cyngor ddim yn berchen arno, dibynnir ar wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae honno'n dod yn achlysurol. Pan fydd yr wybodaeth ar gael, bydd modd ei rhannu gyda'r Pwyllgor Craffu. O ran y polisi cynllunio, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod ffyrdd o ddiogelu coed trwy'r system gynllunio. Bydd gwerth coed a'r fioamrywiaeth maen nhw'n ei hybu yn cael eu diogelu'n fwy yn y Cynllun Datblygu Lleol yma, o'i gymharu â'r cynllun blaenorol. Os oes pryderon penodol am goeden/coed, mae gyda ni fesurau megis Gorchmynion Diogelu Coed (TPOs) y mae modd i ni eu defnyddio. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd TPOs a dywedodd y dylen ni fod yn rhagweithiol o ran hyn trwy'r broses gynllunio.

Gofynnodd Aelod arall sut mae modd i ni annog grwpiau cymunedol lleol a chynghorau cymuned i gymryd rhan yn y mentrau yma. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cynllun Partneriaeth Natur Leol yn fenter wych i gynnwys grwpiau lleol a chyfeiriodd Aelodau at wefan y Cyngor. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod angen iddyn nhw atgoffa pobl bod y wefan ar gael a phwysleisiodd fod y wefan yn ased da i ysgolion a grwpiau natur lleol. Byddai'r grwpiau lleol yn cael eu hannog i fwrw golwg ar wefan Action For Nature a dod o hyd i fanylion cyswllt lleol.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd Aelod a oes ffordd o ofyn i brynwr posibl tir y Cyngor am eu bwriad o ran y coed ar y tir cyn ei werthu eto ac, os felly, fyddai

modd i ni werthu'r tir gyda Gorchymyn Diogelu Coed. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod proses fewnol eithaf cadarn ar waith cyn i dir gael ei werthu a bod adrannau'r Cyngor yn cael yr wybodaeth i gyflwyno sylwadau arni cyn i'r tir gael ei werthu. Nododd y Cyfarwyddwr y byddai'n gwirio a yw'r Swyddog Coed yn rhan o'r broses fewnol yma. Mae'n eithaf cyffredin nad yw coed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor wedi'u diogelu trwy Orchymyn Diogelu Coed ar y sail eu bod nhw wedi'u diogelu gan eu bod nhw ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Y broses fyddai rhoi Gorchymyn Diogelu Coed arnyn nhw yn rhan o'r broses werthu. Gofynnodd yr Aelod a yw'n bosibl i'r Cyngor ofyn i berchennog am eu bwriad o ran y coed cyn i'r tir gael ei werthu ac a ydyn nhw wedi ystyried yr effaith ar yr amgylchedd. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i Aelodau fod gan y Cyngor bwerau i reoli gwaith torri coed os yw cais cynllunio yn dod i law. Serch hynny, os nad yw'r coed wedi'u diogelu a nad yw cais cynllunio wedi dod i law, does dim byd yn atal y person rhag torri coeden sydd heb ei diogelu trwy Orchymyn Diogelu Coed. Pwysleisiodd yr Aelod ei bod hi'n wrthgynhyrchiol i'r Awdurdod blannu coed ac wedyn gwerthu tir gyda choed y mae hawl eu torri. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod modd iddyn nhw edrych ar wneud y broses fewnol yn fwy cadarn lle mae gweithwyr priodol y Cyngor yn cael gwybod cyn i dir gael ei werthu er mwyn sicrhau bod unrhyw goed sy'n haeddu cael eu diogelu yn cael eu hystyried.

Aeth y drafodaeth yn ei blaen a chyfeiriodd y Cadeirydd at ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol sy'n profi problemau gyda llygod mawr o ganlyniad i lawer o ordyfiant ac mae'r gordyfiant wedi achosi llawer o gwynion. Gofynnodd y Cadeirydd am safbwynt y Cyngor o ran gadael i ardaloedd dyfu'n wyllt ar gyfer byd natur ac am y gofyniad i'r Cyngor dorri'r ardaloedd yma a sicrhau nad ydyn nhw'n gordyfu i mewn i eiddo pobl eraill. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod hyn yn dod o dan faes niwsans felly os yw canghennau coeden ar dir y Cyngor yn hongian dros eiddo rhywun, mae hawl gan y person hwnnw o dan gyfraith gyffredin i dorri'r goeden honno. Oni bai eu bod nhw'n effeithio ar yr eiddo cyfagos mewn ffordd ddifrifol, fyddai'r Cyngor ddim yn cymryd camau i dorri coed na'r canghennau. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad o ran y polisi o adael i gylchfannau a phriffyrdd dyfu'n wyllt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu fod Carfan y Priffyrdd yn gweithio'n agos iawn gydag ecolegwyr a bod modd i'r wybodaeth yma gael ei thrafod eto mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu. Gofynnodd y Cadeirydd a oes map o'r Fwrdeistref Sirol sy'n dangos yr ardaloedd sydd wedi'u gadael i dyfu'n wyllt. Dywedodd Pennaeth Materion Cynllunio ei fod wedi cael cyfarfod gydag adran Gofal y Strydoedd a swyddogion carfan Cefn Gwlad yn ddiweddar a chadarnhaodd fod amserlen cynnal a chadw bresennol sy'n cadarnhau'r ardaloedd fydd yn tyfu'n wyllt. Pwysleisiodd Pennaeth Materion Cynllunio bwysigrwydd rhannu'r wybodaeth yma gyda'r cyhoedd. Gofynnodd y Cadeirydd a yw Aelodau Lleol wedi cael gwybod am hyn gan ddibynnu ar yr achos, a chadarnhaodd Swyddogion fod pob Aelod Lleol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynnodd Aelod arall a ddylen ni fod yn edrych ar yr ardaloedd lle rydyn ni'n plannu'r coed ac a ddylen nhw gael eu plannu mor agor i'w gilydd. Nododd Pennaeth Materion Cynllunio fod hyn yn fater i'r arbenigwyr yn y maes hwnnw, y Swyddog Coed a Cheidwaid y Parc, a'u bod nhw'n deall y pellter y mae rhaid ei gadw ar gyfer tyfu'r coed hynny'n iach orau. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd rhoi gwybod i Aelodau os oes unrhyw waith plannu coed mawr yn eu wardiau. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu mai dyna'r cynllun o hyn ymlaen.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth o ran faint o TPOs sydd ar waith yn RhCT a'r

lleoliadau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai modd darparu gwybodaeth am unrhyw TPOs sylweddol ledled y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod modd i'r Swyddogion roi gwybodaeth sy'n benodol i ward yr Aelod i'r Aelod yn lle pennu hyn yn ddarn o waith craffu. Bydd Aelodau'n elwa ar gael yr wybodaeth yma.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- Nodi ac ystyried y cynnydd o ran cyflawni Strategaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd RhCT;
- Gweithredu'r ystyriaethau canlynol yn dilyn craffu ar y strategaeth:
    - Rhagor o wybodaeth mewn perthynas â gordyfiant gwrychoedd a glaswellt gwyllt ar y briffordd a gwaith y Cyngor gydag ecolegwyr yn y maes yma;
    - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Lleol am unrhyw gynlluniau Plannu Coed mawr yn eu wardiau;
    - Rhoi gwybodaeth i Aelodau am Orchmynion Diogelu Coed yn eu hardaloedd lleol.

**20 Materion Brys**

Doedd dim mater brys i'w drafod.

**21 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Aeth y Cadeirydd ati i ddiolch i'r Swyddogion ac Aelodau am fynychu'r cyfarfod ac i atgoffa Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd 2023. Lluniodd y Cadeirydd grynodeb o geisiadau'r Pwyllgor am ragor o wybodaeth a dywedodd y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gydag Aelodau maes o law.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 pm**

**Y Cynghorydd C Middle**
**Cadeirydd.**